



The Open  
University  
Y Brifysgol  
Agored

WALES CYMRU

## Rita



Roeddwn i'n poeni ychydig am bwnc yr wythnos hon. Rwy'n gwybod bod llawer o wahanol anghenion ac y gallwn i gael myfyriwr sydd ag unrhyw un ohonynt, unrhyw bryd. Fel arfer, yn yr ystafell ddosbarth, nid yw'n anodd iawn addasu i beth bynnag sy'n cael ei gyflwyno i chi, ond roeddwn i'n pryderu os na fyddwn i'n gwneud fy neunyddiau ar-lein yn hygyrch y gallai myfyriwr ag anghenion hygyrchedd fynd yn hollol styc, ac ni fyddwn yno i ddatrys y broblem yn syth, fel y byddai'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth.

Rydwn i ychydig yn fwy hyderus erbyn hyn. Rwy'n gwybod yr ystyriaethau hygyrchedd cyffredin i'w cadw mewn cof pan fyddaf yn creu fy neunyddiau, ac rwy'n credu ei bod yn ddiddorol y gallai ystod mor eang o'm dysgwyr elwa o well hygyrchedd. Rwy'n gwybod bod rhaid i mi ysgrifennu testun amgen ar gyfer delweddau, trawsgrifiadau neu gapsiynau ar gyfer fideos, a darparu fformatau amgen ar gyfer deunyddiau dysgu a allai fod yn anhygyrch. Mae gen i nifer go dda o ddysgwyr y mae'r Saesneg yn ail iaith iddynt. Rwy'n credu y bydden nhw'n hoffi darllen is-deitlau neu drawsgrifiadau o fideos lle mae'r siaradwr yn siarad yn gyflym neu'n defnyddio termau cymhleth, felly gallai fy ngwaith hygyrchedd fod o fudd i'r dysgwyr hynny hefyd, o bosibl.

Cyn dechrau creu fy neunyddiau dysgu ar-lein, rwy'n mynd i gysylltu â'r arbenigwyr anabled a hygyrchedd yn fy sefydliad i ofyn a oes ganddynt unrhyw ddogfennau canllaw, ac efallai i ofyn a fyddent yn fodlon edrych ar fy neunyddiau pan fyddaf wedi'u creu, i weld a allant sylwi ar unrhyw faterion hygyrchedd amlwg. Ni fyddwn wedi bod â'r hyder i wneud hynny gynt, ond rwy'n teimlo nawr fy mod i'n gwybod digon i wneud fy neunyddiau'n eithaf hygyrch ac yna gallan nhw fy helpu i'w gwella mwy fyth.